



Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2017-18 Y Gymraeg: Hyder ac agweddau

10 Hydref 2018
SB 59/2018

Yn 2017-18, roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cwestiynau am y Gymraeg, gan edrych ar hyder siaradwyr Cymraeg i siarad yr iaith yn ogystal ag agweddau tuag at yr iaith ymhlith y rhai sy'n ei siarad a'r rhai nad ydynt yn ei siarad.

Mae'r bwletin hwn yn cyflwyno canlyniadau'r cwestiynau newydd hyn, a hefyd yn cyflwyno canlyniadau eraill ynghylch gallu yn y Gymraeg sydd wedi'u cynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol ac arolygon cynharach yn y blynyddoedd diweddar.

Canfyddiadau allweddol 2017-18

Gallu

- Adroddodd 19% o oedolion 16 oed neu hŷn eu bod yn gallu siarad Cymraeg, tra bo 12% arall yn adrodd bod ganddynt rywffaint o allu i siarad Cymraeg.
- Pobl ifanc 16 i 24 oed oedd yn fwyaf tebygol o allu deall, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg.

Hyder

- Roedd 68% o siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n hyderus yn siarad Cymraeg. Mae 72% eisiau ei siarad â siaradwyr Cymraeg eraill ac mae 36% yn pryderu y byddant yn cael eu barnu ar sail safon eu Cymraeg.
- Roedd cydberthyniad cryf rhwng pa mor rhugl yr oedd siaradwr a'i hyder wrth siarad Cymraeg.
- Roedd 95% o siaradwyr rhugl yn hyderus wrth siarad Cymraeg; er hyn, roedd 21% o siaradwyr rhugl yn pryderu y byddai safon eu hiaith yn cael ei beirniadu.
- Roedd menywod ychydig yn fwy tebygol na dynion i bryderu am gael eu beirniadu.

Agweddau

- Mae 86% o bobl yn teimlo bod y Gymraeg yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi.
- Roedd 67% yn credu bod angen i fwy o ymdrech gael ei gwneud i gefnogi'r iaith
- Byddai 62% o'r rhai nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg yn dymuno gallu ei siarad, ac 85% o'r rhai â rhywfaint o allu yn y Gymraeg eisiau ei siarad yn well.
- Y datganiad yr oedd pobl leiaf tebygol o gytuno ag ef oedd 'Bydd yr iaith Gymraeg yn gryfach mewn 10 mlynedd nag ydyw heddiw': cytunodd 40% â'r datganiad hwnnw. Y rhai sy'n byw yn y gogledd-ddwyrain oedd leiaf tebygol o gytuno â'r datganiad hwn.



Y bwletin hwn

Mae'r bwletin hwn yn darparu dadansoddiad mwy manwl o ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol 2017-18 ynghylch **yr iaith Gymraeg**.

Lle y bo'n bosibl, mae hefyd yn cynnwys cymariaethau â chanlyniadau o arolygon blaenorol.

Mae'r holiadur cyfan i'w weld ar [dudalennau gwe'r Arolwg Cenedlaethol](#).

Gallwch gael mynediad at dablau ychwanegol drwy'r [dangosydd canlyniadau](#).

Yn y bwletin hwn

Cyflwyniad	2
Cefndir: Gallu yn yr iaith	3
Hyder o ran defnyddio'r iaith	10
Agweddau tuag at y Gymraeg	19
Termau a diffiniadau	33
Gwybodaeth allweddol am ansawdd	35

Cyflwyniad

Mae strategaeth [Cymraeg 2050](#) yn nodi gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, mae'r strategaeth yn datgan bod angen gweithredu i alluogi rhagor o bobl i ddysgu siarad Cymraeg, i alluogi siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar eu bywydau, a bod ewyllys da a theimlad o berchnogaeth tuag at y Gymraeg ymhlith y rhai nad ydynt yn ei siarad ynghyd â chydabyddiaeth o'i chyfraniad at ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru.

Mae'r strategaeth yn datgan mai Cyfrifiad y Boblogaeth fydd yn cael ei ddefnyddio i fonitro cynnydd tuag at y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Ond, er mwyn gwneud penderfyniadau polisi deallus ynghylch y Gymraeg, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys cwestiynau ynghylch gallu pobl yn y Gymraeg yn Arolwg Cenedlaethol Cymru, ac yn yr arolygon blaenorol. Yn ogystal â hynny, yn 2017-18, am y tro cyntaf, cafodd cwestiynau eu cynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol ynghylch hyder siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'u Cymraeg ac ynghylch agweddau pobl at yr iaith, er mwyn monitro hynt '[Cymraeg 2050](#)'.

Hefyd, mae 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' yn un o saith nod llesiant [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#). Mae hynny'n rhoi gofyniad cyfreithiol ar Lywodraeth Cymru i adrodd am y cynnydd a wna tuag at y nod hwnnw. Nodwyd dau [ddangosydd cenedlaethol](#) i fesur cynnydd tuag at y nod hwn sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Y dangosyddion hynny yw'r ganran o'r bobl sy'n:

- [Siarad Cymraeg yn ddyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg](#) (Rhif 36),
- [Gallu siarad Cymraeg](#) (Rhif 37)

Yr [Arolwg Defnydd Iaith](#) a [Chyfrifiad y Boblogaeth](#) yw'r prif ffynonellau gwybodaeth ar gyfer y dangosyddion cenedlaethol hyn. Fodd bynnag, ar gyfer y blynyddoedd rhwng Arolygon Defnydd Iaith neu Gyfrifiadau mae'r Arolwg Cenedlaethol yn darparu data mwy rheolaidd am oedolion 16 oed neu hŷn o ran y dangosyddion hynny. Mae [Arolwg Defnydd Iaith](#) yn cynnwys gwybodaeth am y sgiliau a defnydd yr iaith gan blant o dan 16 oed, sydd ddim yn cael eu trafod yn y bwletin hwn.

Strwythur y bwletin

Mae'r bwletin hwn wedi ei rannu'n dair pennod:

- 1: [Cefndir - Gallu yn y Gymraeg](#) - Mae'r bennod gyntaf yn cyflwyno canlyniadau Arolwg Cenedlaethol 2017-18 ar allu pobl yn y Gymraeg. Gofynnwyd y cwestiynau hyn hefyd yn yr arolygon blaenorol. Mae'r bennod yn cyflwyno canlyniadau dros amser a ffynonellau gwahanol.
- 2: [Hyder siaradwyr Cymraeg wrth ddefnyddio'r iaith](#) - Mae'r ail bennod, yn canolbwyntio ar siaradwyr Cymraeg ac yn edrych ar y nodweddion sy'n gysylltiedig â'u hyder i siarad Cymraeg.
- 3: [Agweddau tuag at y Gymraeg](#) - Mae'r drydedd bennod yn cyflwyno canlyniadau ar agweddau pobl tuag at yr iaith ymhlith y rhai sy'n ei siarad a'r rhai nad ydynt yn ei siarad.

Defnyddir dadansoddiad atchweliad ym mhenodau 2 a 3 i nodi'r ffactorau sy'n dylanwadu ar agweddau tuag at yr iaith a hyder pobl. Mae'r ffactorau sydd wedi aros yn arwyddocaol hyd yn oed ar ôl cynnal y ffactorau eraill yn gyson yn cael eu trafod yn y bwletin hwn

Pennod 1: Cefndir - gallu yn y Gymraeg

Y [Cyfrifiad](#) yw'r brif ffynhonnell wybodaeth am gyfran y bobl sy'n medru siarad Cymraeg, ond defnyddir yr Arolwg Cenedlaethol i olrhain tueddiadau o ran oedolion rhwng Cyfrifiadau.


Canfu Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18 fod 19% o'r oedolion 16 oed neu hŷn yn datgan eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Gofynnwyd y cwestiwn yng Nghyfrifiad 2011 hefyd, pan ddatganodd 16% o'r oedolion eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Gofynnwyd y cwestiwn hwn yng Nghyfrifiad 2011, lle ddywedodd 19% o bobl 3 oed a throsodd, a 16% o oedolion 16 oed a throsodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

Mae Arolwg Blynyddol y Boblogaeth hefyd yn casglu gwybodaeth am nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae'r canlyniadau mwyaf diweddar y flwyddyn o fis Mehefin 2017 i Mehefin 2018, yn dweud fod 29% o bobl 3 a throsodd, a 24% o oedolion 16 oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg. Mae amcangyfrifon yr Arolwg Blynyddol y Boblogaeth yn dueddol o fod tipyn y uwch na'r Cyfrifiad a'r Arolwg Cenedlaethol

Ers i'r Arolwg Cenedlaethol ddechrau yn 2012-13, cafodd cwestiwn ei gynnwys ar allu pobl i siarad Cymraeg. Fodd bynnag, yn y flwyddyn gyntaf hon, cafodd cyfwelwyr gyfarwyddyd i nodi pobl a oedd yn oedi cyn ateb (oherwydd bod ganddynt rywaint o allu i siarad Cymraeg) eu bod yn siaradwyr Cymraeg, gan fod cwestiynau ynghylch rhuglder yn dilyn. Oherwydd hynny, o 2013-14 ymlaen, cyflwynwyd categori newydd ar gyfer cyfwelwyr er mwyn iddynt allu codio'r ymatebwyr hynny fel 'ddim yn gallu siarad Cymraeg ond mae ganddynt rywaint o allu i siarad yr iaith'. Mae'r gyfran sy'n cael ei chodio i'r ymateb hwn wedi cynyddu'n gyflym ers ei gyflwyno, fel y dengys Siart 1 isod.

Gofynnwyd y cwestiwn ar y gallu i siarad Cymraeg hefyd yn yr arolwg blaenorol, sef 'Byw yng Nghymru' o 2004 ymlaen. Mae Siart 1 yn dangos sut mae'r canrannau sy'n adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg wedi newid dros amser ac yn ôl y ffynhonnell.

Siart 1: Gallu i siarad Cymraeg, i bobl oed 16+, yn ôl y ffynhonnell, 2001 hyd at 2018



Mae'r siart yn dangos bod canlyniadau'r cyfrifiad ar gyfer y ganran o siaradwyr Cymraeg, yn 2011 yn benodol, tipyn yn is na'r canlyniadau arolygon ar gyfer y blynyddoedd agosaf ato.

Pam fod canlyniadau'r Cyfrifiad yn wahanol i ganlyniadau arolygon?

Mae'r cwestiwn am allu yn y Gymraeg a ddefnyddir yn Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yr un peth â'r cwestiwn a ddefnyddiwyd yn y Cyfrifiad. Serch hynny, mae cyfran y bobl sydd yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn uwch ym mhob un o'r arolygon hyn nag ydyw yn y Cyfrifiad. Mae gwahaniaethau yn y ffordd y mae'r arolygon hyn a'r Cyfrifiad wedi'u cynnal yn debygol o fod wedi effeithio ar y canlyniadau.

- Mae'r Cyfrifiad yn holiadur hunan-lenwi statudol, tra bo'r Arolwg Cenedlaethol yn wirfoddol ac mae'n defnyddio cyfweiliadau wyneb yn wyneb.
- Mae'r cwestiwn yn y Cyfrifiad yn gofyn i'r ymatebydd dicio 'bob blwch sy'n berthnasol'. Nid yw pawb yn darllen y cyfarwyddiadau, felly mae'n bosibl eu bod wedi ticio un blwch yn unig. Fodd bynnag, mewn arolwg sy'n cael ei arwain gan gyfweilydd, bydd y cyfweilydd yn holi ynghylch pob sgil ar wahân, gan gynyddu'r posibilrwydd y bydd pobl yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg.
- Pan fo un cwestiwn yn wynebu ymatebwyr mewn arolwg statudol swyddogol, rhaid iddynt wneud penderfyniad pendant o ran p'un a ydynt yn siarad Cymraeg ai peidio. Pan fo cyfweilydd yn bresennol, mae'n bosibl y bydd yr ymatebydd yn teimlo y gall ddisgrifio'i allu'n fanylach i'r cyfweilydd a gall y cyfweilydd annog ymatebwyr i ddweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, er mwyn iddynt allu rhoi rhagor o fanylion am eu gallu yn y cwestiynau i ddilyn.
- Yn yr Arolwg Blynyddol, gofynnir ymatebwyr i ymateb ar ran aelodau eraill o'r cartref. Pan fydd yr ymatebion 'procsi' hyn yn cael eu hanwybyddu, mae'r gyfran sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg ychydig yn is (22% yn hytrach na 24%), yn enwedig ar gyfer yr ymatebwyr ifanc 16-24 oed. Mae hyn yn awgrymu efallai fod cyd-aelodau'r aelwyd yn dueddol o or-ddweud am allu aelodau eraill yr aelwyd yn y Gymraeg.
- Dylid cofio hefyd y gall asesiad siaradwyr o'u gallu i siarad iaith fod yn eithaf goddrychol. Mae gallu dweud ychydig eiriau yn yr iaith yn ddigon i rai pobl ddweud eu bod yn ei siarad hi. Os ydynt yn teimlo'n fwy cartrefol yn siarad iaith arall, mae'n bosibl y bydd pobl eraill yn dweud nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg, er eu bod yn ei siarad yn rheolaidd.

Am y rhesymau hyn, mae'n bosibl bod rhai ymatebwyr y nodwyd eu bod yn siarad Cymraeg yn Arolwg Cenedlaethol Cymru neu'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth wedi nodi nad oeddent yn siarad Cymraeg wrth gwblhau holiadur y Cyfrifiad.

Byddwn yn cynnal ymchwil pellach i mewn i ymatebion pobl mewn arolygon am eu gallu yn y Gymraeg a'r gwahaniaethau rhwng ymatebion mewn arolygon ac yn y Cyfrifiad. Rydym yn gobeithio adrodd ar y gwaith hwn yn y misoedd nesaf.¹


¹ Mae'r ymchwil pellach yn cynnwys:

- Prosiect cysylltu ymatebion pobl i'r Arolwg Cenedlaethol i'w hymatebion Cyfrifiad i ddeall nodweddion y bobl hynny sy'n cofnodi eu gallu yn y ddwy ffynhonnell wahanol, a
- Dadansoddiad ychwanegol o un chwarter o'r Arolwg Cenedlaethol a'r Arolwg Blynyddol y Boblogaeth, lle ofynnwyd i gyfweilyddwyr asesu hyder yr ymatebwyr wrth ateb y cwestiwn ar eu gallu i siarad Cymraeg.

Oedran

Pobl ifanc, 16 i 24 oed oedd yn fwyaf tebygol o allu siarad Cymraeg, gyda 25% yn adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn 2017-18. Y grŵp oedran lleiaf tebygol o siarad Cymraeg oedd y rhai rhwng 45 a 74 oed, gyda 17% ohonynt yn siarad Cymraeg fel a ddangosir yn Siart 2.


Siart 2: Gallu i siarad Cymraeg, yn ôl oedran 2017-18



Roedd pobl ifanc hefyd yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt rywfaent o allu yn yr iaith, er nad oeddent yn gallu ei siarad. Roedd ychydig dros hanner y rhai 16-24 oed a oedd 'yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg' wedi ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn cymharu â bron i dri chwarter y rhai 75 oed neu hŷn a oedd 'yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg'. Dylid cadw hyn mewn cof ym mhenodau diweddarach y bwletin hwn wrth edrych ar hyder y rhai sy'n 'gallu siarad rhywfaint o Gymraeg'.

Mae'r gyfran sy'n adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg wedi aros yn weddol gyson yn ôl oedran ers 2013-14, fel a ddangosir yn Siart 3 isod.

Siart 3: Gallu i siarad Cymraeg, yn ôl oedran 2012-13 hyd at 2017-18




Fodd bynnag, mae'r gyfran sy'n adrodd eu bod 'yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg' wedi cynyddu ym mhob grŵp oedran ers cyflwyno'r cwestiwn, ond roedd y cynnydd mwyaf ymhlith y rhai 16-24 oed.

Ardal

Mae'r ardaloedd sydd â'r cyfrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yn hanner gorllewinol Cymru, fel a welir yn y map hwn.

Map/Tabl 4: Gallu i siarad Cymraeg, yn ôl awdurdod lleol a rhanbarth



Mae'r tabl ar y dde yn dangos y cyfrannau sy'n gallu siarad Cymraeg ac sydd a 'rhywfaint o allu i siarad Cymraeg' ym mhob awdurdod lleol ac mae hefyd yn dangos pa awdurdodau lleol sydd ym mhob rhanbarth. Gwelwn fod y cyfrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd ac Ynys Môn, gyda 70% a 61% yn gallu siarad Cymraeg yn y naill a'r llall. Mewn llawer o ardaloedd yn Ne Cymru, mae'r canran sy'n dweud bod ganddynt 'rhywfaint o allu i siarad Cymraeg allu' yn fwy na'r canran sy'n datgan eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

Oherwydd maint y sampl, cofnodir rhai canlyniadau fesul rhanbarth yn hytrach na fesul awdurdod lleol ym mhenodau diweddarach y bwletin.

Mae'r awdurdodau lleol wedi'u gosod yn y rhanbarthau hyn er mwyn bod yn gyson â dadansoddiadau blaenorol ar yr iaith Gymraeg.²


² [Arolwg Defnydd Iaith 2013-15](#)

Sgiliau eraill yn y Gymraeg

Canfu Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18 fod 29% o'r oedolion 16 oed neu hŷn yn gallu deall Cymraeg llafar, gallai 22% ddarllen Cymraeg a 19% ei hysgrifennu.

Roedd pobl ifanc yn llawer mwy tebygol o adrodd eu bod yn gallu deall Cymraeg llafar, ac yn gallu darllen ac ysgrifennu Cymraeg, fel a ddangosir yn Siart 5.


Siart 5: Gallu i ddarllen, ysgrifennu a deall Cymraeg llafar, yn ôl oedran, 2017-18



Gofynnwyd y cwestiynau hyn yng Nghyfrifiad 2011, ac unwaith eto adroddodd cyfran is o oedolion eu bod yn gallu gwneud pob un o'r rhain (20% yn deall Cymraeg llafar, 16% yn gallu ei darllen, a 13% yn gallu ei hysgrifennu).

Mae'r cwestiynau hyn hefyd wedi'u cynnwys mewn Arolygon Cenedlaethol blaenorol ac yn arolwg Byw yng Nghymru. Mae Siart 6 yn dangos sut mae'r canrannau sy'n adrodd eu bod yn gallu deall, darllen ac ysgrifennu Cymraeg wedi newid dros amser.

Siart 6: Gallu i ddarllen ac ysgrifennu Cymraeg a deall Cymraeg llafar, o 2004 hyd at 2018




Wrth edrych ar ganlyniadau'r arolwg yn unig, mae'r canrannau sy'n adrodd eu bod yn gallu deall Cymraeg llafar, a darllen ac ysgrifennu Cymraeg wedi cynyddu'n raddol dros y blynyddoedd.

Rhuglder

Mae'r Arolygon Cenedlaethol ac arolwg Byw yng Nghymru hefyd wedi cynnwys cwestiynau yn gofyn i'r rhai hynny sy'n siarad Cymraeg (neu rai sydd yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg) i ddisgrifio'u gallu yn y Gymraeg. Dangosir yr ymatebion dros amser yn Siart 7.


Siart 7: Rhuglder yn y Gymraeg, o 2004 hyd at 2018



Yn 2017-18, dywedodd 11% eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl. Mae hynny wedi parhau'n weddol gyson ers 2004 fel y dengys yn Siart 7. Mae 5% yn dweud eu bod yn gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg; mae hyn wedi cynyddu ychydig o 3% yn 2004. Gwelir y cynnydd mwyaf yn nifer y rhai sydd 'yn gallu siarad ychydig o Gymraeg yn unig' a'r rhai sy'n 'gallu dweud ychydig eiriau'. Cofier, fodd bynnag, fod y rhai a adroddodd nad oeddent yn siarad Cymraeg ond eu bod yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg hefyd wedi cael eu harwain at y cwestiwn hwn, a bydd hynny yn gyfrifol am ran helaeth o'r cynnydd hwnnw.

Pobl ifanc 16-24 oed sydd fwyaf tebygol o fod yn rhugl yn Gymraeg. Yn 2017-18 roedd 14% o'r rhai 16-24 oed yn rhugl, o'u cymharu â 10% o'r rhai 45-74 oed. Dangosir hyn yn Siart 8 isod.

Siart 8: Rhuglder yn y Gymraeg, yn ôl oedran, 2017-18




Mae'r grŵp iau hwn hefyd yn fwy tebygol na grwpiau oedran hŷn i adrodd eu bod yn gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg neu eu bod yn gallu siarad 'ychydig o Gymraeg yn unig'.

Amllder

Gofynnwyd hefyd i ymatebwyr ddisgrifio pa mor aml yr oeddent yn siarad Cymraeg, a dangosir hyn yn Siart 9.


Siart 9: Amllder siarad Cymraeg, o 2004 i 2018



Yn 2017-18 roedd 12% yn siarad Cymraeg bob dydd. Roedd hwnnw'n gynnydd bach iawn ers 2013-14, pan oedd 10% yn siarad Cymraeg bob dydd. Mae Siart 9 yn dangos bod y cynnydd mwyaf ar gyfer y cyfrannau sy'n siarad Cymraeg yn llai aml neu byth.

Er bod pobl ifanc 16-24 oed yn fwy tebygol o siarad Cymraeg ac o'i siarad yn rhugl nag yw grwpiau oedran eraill, nid hwnnw yw'r grŵp oedran sy'n siarad Cymraeg yn fwyaf aml. Pobl rhwng 35 a 44 oed oedd yn fwyaf tebygol o siarad Cymraeg bob dydd. Dangosir hyn yn Siart 10 isod.

Siart 10: Amllder siarad Cymraeg, yn ôl oedran, 2017-18



Mae 15% o'r rhai rhwng 35 a 44 oed yn siarad Cymraeg bob dydd, o'u cymharu â 11% o'r rhai 65 oed neu hyn.

Pennod 2: Hyder siaradwyr Cymraeg wrth ddefnyddio'r iaith



Siaradwyr Cymraeg sy'n **rhugl** ac sy'n **siarad Cymraeg bob dydd**, sydd **fwyaf** tebygol o fod yn hyderus wrth siarad Cymraeg. Dyma oedd y ddau ffactor pwysicaf a oedd yn dylanwadu ar hyder siaradwyr Cymraeg i siarad yr iaith.


Canfu [ymchwili](#) a wnaed gan BBC Cymru Wales, S4C a Llywodraeth Cymru yn 2013 fod hyder yn aml yn cael ei roi fel rheswm gan rai siaradwyr Cymraeg dros beidio â defnyddio'r iaith.³ Dywedodd yr adroddiad fod y math o deimladau a brofwyd gan rai siaradwyr Cymraeg yn cynnwys credu eu bod yn swnio fel ffŵl wrth geisio siarad Cymraeg, teimlo'n lletchwith, yn ddi-glem ac yn swil.

Er mwyn deall mwy am hyder siaradwyr Cymraeg wrth siarad a defnyddio'r Gymraeg, cynhwysodd Arolwg Cenedlaethol Cymru gwestiynau ar y pwnc yn 2017-18 am y tro cyntaf. Gofynnwyd i siaradwyr Cymraeg i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r tri datganiad a ganlyn:

- Fel arfer rwy'n teimlo'n hyderus yn siarad Cymraeg
- Pan fyddaf yng nghwmni siaradwyr Cymraeg eraill, rydw i fel arfer am siarad â nhw yn Gymraeg
- Pan fyddaf yn siarad Cymraeg, rwy'n aml yn poeni y byddaf yn cael fy meirniadu ar sail pa mor dda dwi'n ei siarad

Dangosir yr ymatebion a roddwyd yn Siart 11.

Siart 11: Y graddau y cytunir â datganiadau ynghylch hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg



Roedd 68% o siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n hyderus wrth siarad Cymraeg gan amlaf. Y rhain oedd yn fwyaf tebygol o gytuno â'r datganiad "pan fyddaf yng nghwmni siaradwyr Cymraeg eraill, rydw i fel arfer am siarad â nhw yn Gymraeg" (cytunodd 72% â'r datganiad hwn), ac yn lleiaf tebygol o gytuno â'r datganiad "pan fyddaf yn siarad Cymraeg, rwy'n aml yn poeni y byddaf yn cael fy meirniadu ar sail pa mor dda dwi'n ei siarad" (cytunodd 36% â'r datganiad hwn).


Gofynnwyd hefyd i'r rhai nad oedd yn gallu siarad Cymraeg, ond oedd a rhywfaint o allu i siarad Cymraeg, i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiadau hyn. Roedd y canlyniadau'n dra gwahanol ar gyfer y grŵp hwn. Dim ond 9% oedd yn hyderus yn siarad Cymraeg, cytunodd 25% eu bod gan amlaf yn dymuno siarad Cymraeg â siaradwyr Cymraeg eraill a chytunodd 51% eu bod yn aml yn poeni am gael eu beirniadu ar sail pa mor dda maent yn siarad Cymraeg.

³ [Ymchwilio i ddefnydd iaith siaradwyr Cymraeg yn eu bywyd bob dydd](#), BBC Cymru, S4C a Llywodraeth Cymru 2013.

Nodyn: Yn y bennod hon, cyflwynir y canlyniadau ar gyfer y rhai hynny a wnaeth adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn unig.

Roedd cydberthyniad cryf dros ben rhwng rhuglder siaradwyr Cymraeg a'u hymatebion i'r datganiadau a ddangosir yn y ddau siart a ganlyn.


Siart 12: Y graddau y cytunir â datganiadau ynghylch hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg, o ran siaradwyr Cymraeg rhugl



Mae Siart 12 yn dangos bod y mwyafrif llethol o siaradwyr Cymraeg rhugl yn hyderus wrth siarad Cymraeg (95%), ac mae canran ddigon tebyg yn dymuno siarad Cymraeg â siaradwyr Cymraeg eraill (93%). Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg rhugl yn hyderus wrth siarad yr iaith, roedd oddeutu un o bob pump (21%) yn pryderu y byddent yn cael eu beirniadu ar sail pa mor dda yr oeddent yn ei siarad.

Fel y gellid disgwyl, roedd siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl yn llai tebygol o fod yn hyderus, fel y dangosir yn Siart 13.

Siart 13: Y graddau y cytunir â datganiadau ynghylch hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg, o ran siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl



Roedd llai na thraean (31%) o siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl yn hyderus wrth siarad Cymraeg, 45% oedd yn dymuno siarad Cymraeg â siaradwyr Cymraeg eraill, ac roedd dros hanner (56%) yn pryderu'n aml ynghylch cael eu beirniadu ar sail pa mor dda yr oeddent yn siarad Cymraeg.

Roedd cydberthyniad cryf rhwng pa mor aml yr oeddent yn siarad Cymraeg a'u hymatebion i'r datganiadau. Roedd 90% o'r rhai a oedd yn siarad Cymraeg bob dydd yn hyderus ynghylch siarad Cymraeg, roedd 88% yn dymuno siarad Cymraeg â siaradwyr Cymraeg eraill, ac roedd 23% yn pryderu'n aml ynghylch cael eu beirniadu ar sail pa mor dda yr oeddent yn siarad Cymraeg. Mae hyn yn cymharu â 40%, 52% a 53% yn eu tro ar gyfer y rhai a oedd yn siarad Cymraeg yn llai aml.

Fel arfer rwy'n teimlo'n hyderus yn siarad Cymraeg



Prif ganfyddiadau

Siaradwyr Cymraeg sy'n **rhugl** ac sy'n **siarad Cymraeg bob dydd**, sydd **fwyaf** tebygol o fod yn hyderus wrth siarad Cymraeg.

Yn ogystal a hyn, roedd siaradwyr Cymraeg a oedd yn:

- **hŷn**
- byw yng **Ngogledd Orllewin Cymru**
- ystyried eu **hunaniaeth genedlaethol** i fod yn **Gymry**
- byw mewn ardaloedd **llai poblog**
- **fodlon â'u bywydau** yn gyffredinol


hefyd yn fwy tebygol o deimlo'n hyderus wrth siarad Cymraeg.

Rhuglder yn yr iaith oedd y prif ffactor a oedd yn esbonio hyder pobl o ran defnyddio'r Gymraeg; roedd pa mor aml yr oedd unigolyn yn siarad Cymraeg yn ail agos i hynny.

Wrth edrych ar siaradwyr rhugl yn **unig**, dangosodd ein dadansoddiad, mai ychydig awn o wahaniaeth oedd mewn lefelau hyder beth bynnag oedd eu nodweddion personol, er bod oedran yn parhau i fod yn ffactor arwyddocaol (roedd siaradwyr rhugl hŷn yn fwyaf hyderus, na'r rhai ifanc).

Mae Siart 14 yn dangos bod cyfran fwy o'r rhai a oedd yn rhugl eu Cymraeg ac yn ei siarad bob dydd yn hyderus wrth siarad yr iaith o'u cymharu â'r rhai nad oeddent yn ei siarad mor aml. Nid yw'n bosibl i asesu p'un ai fod rhywun yn fwy hyderus am eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd, neu yn siarad yr iaith bob dydd am eu bod yn hyderus, nac ychwaith sut mae hyn yn rhyngweithio â'u cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hamgylchedd bob dydd.

Siart 14: 'Fel arfer rwy'n teimlo'n hyderus yn siarad Cymraeg', yn ôl rhuglder a pha mor aml y siaredir Cymraeg




Wrth reoli ar gyfer ffactorau eraill⁴ nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â gallu ieithyddol na defnydd o'r iaith, cafwyd bod y nodweddion personol a ganlyn yn gysylltiedig â **siaradwyr Cymraeg** yn cytuno'n gryf â'r datganiad 'Fel arfer rwy'n teimlo'n hyderus yn siarad Cymraeg':

⁴ Defnyddio oes angen gair arall fan hyn? dadansoddiad atchweliad, cofier fod y canfyddiadau'n dibynnu ar ba ffactorau sydd ar gael i'w hystyried yn y dadansoddiad atchweliad. Yn yr achos hwn, roedd y rhain yn cynnwys - oedran, rhywedd, amddifadedd yr ardal, statws economaidd, ardal drefol neu wledig, presenoldeb plant ifanc yn y cartref, bodlonrwydd ar fywyd, rhanbarth, cymwysterau, maint yr anheddiad, hunaniaeth genedlaethol, lefelau unigrwydd, gorbryder, crefydd. Gallwch weld rhagor o fanylion yn yr adran [Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd](#).

Hunaniaeth genedlaethol - Roedd siaradwyr Cymraeg a oedd yn ystyried mai 'Cymro/Cymraes' oedd eu hunaniaeth genedlaethol yn fwy tebygol o deimlo'n hyderus wrth siarad Cymraeg na'r rhai nad oeddent yn ystyried eu bod yn 'Gymry'. Roedd 58% o'r siaradwyr Cymraeg a oedd yn ystyried mai 'Cymro/Cymraes' oedd eu cenedligrwydd yn 'cytuno'n gryf' â'r datganiad o'u cymharu â 15% o'r siaradwyr Cymraeg nad oeddent yn ystyried eu hunain yn Gymry.

Oedran - Roedd siaradwyr Cymraeg hŷn yn fwy tebygol o fod yn hyderus wrth siarad Cymraeg.


Siart 15: 'Fel arfer rwy'n teimlo'n hyderus yn siarad Cymraeg', yn ôl oedran



Nodwch, fod y siart hwn yn dangos cyfran 'y siaradwyr Cymraeg' oedd yn cytuno gyda'r datganiad 'fel arfer yn teimlo'n hyderus siarad Cymraeg' felly, er bod cyfran uwch o siaradwyr Cymraeg 75 oed neu throsodd yn hyderus, mae cyfran uwch o bobl 16-24 oed yn gallu siarad Cymraeg (gweler [Siart 2](#)). Mewn gwirionedd, mae cyfran uwch o *bawb* sy'n 16-24 oed yn hyderus yn siarad Cymraeg, o'i gymharu â *phawb* sy'n 75 oed a throsodd.


Rhanbarth preswyllo - Roedd pobl sy'n byw yn y rhanbarth â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg - y Gogledd-orllewin - yn fwy tebygol o fod yn hyderus wrth siarad Cymraeg na rhai yn y De-ddwyrain (y rhanbarth â'r gyfran isaf o siaradwyr Cymraeg).

Siart 16: 'Fel arfer rwy'n teimlo'n hyderus yn siarad Cymraeg', yn ôl rhanbarth




Maint yr anheddiad - Roedd siaradwyr Cymraeg a oedd yn byw mewn ardaloedd mwy gwledig gyda llai na 2,000 o bobl yn byw yn yr anheddiad yn fwy tebygol o fod yn hyderus wrth siarad Cymraeg na'r rhai a oedd yn byw mewn aneddiadau gyda thua 10,000 to 24,999 o bobl yn byw ynddynt.

Siart 17: 'Fel arfer rwy'n teimlo'n hyderus yn siarad Cymraeg', yn ôl maint anheddiad



Bodlonrwydd ar fywyd - Yn yr Arolwg Cenedlaethol, gofynnwyd i ymatebwyr nodi pa mor fodlon yr oeddent ar eu bywydau ar raddfa o 0 i 10 (lle'r oedd 0 yn cyfateb i 'ddim yn fodlon o gwbl', 10 yn cyfateb i 'yn hollol fodlon'). Roedd siaradwyr Cymraeg a oedd yn fwy bodlon ar eu bywydau (hynny yw yn rhoi sgôr o 9 neu 10) yn fwy tebygol o deimlo'n hyderus wrth siarad Cymraeg. Un esboniad posibl am hyn yw bod ymatebwyr sy'n teimlo'n gadarnhaol ynghylch eu bywydau hefyd yn fwy tebygol o deimlo'n gadarnhaol ynghylch eu hyder, yn hytrach na bod hyder pobl i siarad Cymraeg yn cael effaith ar ba mor fodlon ydynt ar eu bywydau.

Siart 18: 'Fel arfer rwy'n teimlo'n hyderus yn siarad Cymraeg', yn ôl bodlonrwydd ar fywyd



Rwy'n aml yn poeni y byddaf yn cael fy meirniadu ar sail pa mor dda dwi'n siarad Cymraeg

Prif ganfyddiadau

Siaradwyr Cymraeg **nad oedd yn rhugl nac yn siarad Cymraeg bob dydd**, oedd **fwyaf** tebygol o boeni am gael eu beirniadu ar sail safon eu Cymraeg.

Yn ogystal a hyn, roedd siaradwyr Cymraeg a oedd yn:

- **fenywod**
- **25 i 34 oed**
- byw yng **Ngogledd-Ddwyrain Cymru**
- **byw mewn ardaloedd nad oedd y mwyaf nac ychwaith y lleiaf poblog**
- **nad oeddent yn ystyried eu hunaniaeth genedlaethol i fod yn Gymry**
- **poeni neu'n bryderus** yn gyffredinol


yn fwy tebygol o boeni am cael eu beirniadu ar sail pa mor dda oeddent yn siarad Cymraeg

O'r tri datganiad a ddefnyddiwyd yn yr Arolwg Cenedlaethol i ddeall hyder siaradwyr Cymraeg wrth siarad a defnyddio'r Gymraeg yn well, y datganiad "Pan fyddaf yn siarad Cymraeg, rwy'n aml yn poeni y byddaf yn cael fy meirniadu ar sail pa mor dda dwi'n ei siarad", oedd yr unig un a oedd wedi'i eirio'n negyddol. Fodd bynnag, roedd nodweddion ychydig yn wahanol gan y rhai a oedd yn anghytuno â'r datganiad hwn i'r rhai a gytunodd â'r ddau ddatganiad arall a eiriwyd yn gadarnhaol.

Pan reolir ar gyfer ffactorau eraill,⁵ cafwyd bod y nodweddion canlynol yn gysylltiedig â siaradwyr Cymraeg yn teimlo eu bod yn cael eu beirniadu ar sail pa mor dda y maent yn siarad yr iaith:

Rhuglder a pha mor aml y siaredir Cymraeg⁶ - Fel gyda'r cwestiwn ynghylch hyder wrth siarad Cymraeg, bod yn rhugl yn Gymraeg yw'r prif ffactor sy'n dylanwadu ar ymdeimlad pobl o gael eu beirniadu wrth siarad Cymraeg, y ffactor nesaf o ran pwysigrwydd yw pa mor aml y maent yn siarad Cymraeg. Mae'r rhai nad ydynt yn rhugl ac nad ydynt yn siarad Cymraeg bob dydd yn fwy tebygol i deimlo eu bod yn cael eu beirniadu ar ba mor dda y maent yn siarad yr iaith.

Siart 19: 'Rwy'n aml yn poeni y byddaf yn cael fy meirniadu ar sail pa mor dda dwi'n siarad Cymraeg' yn ôl rhuglder a pha mor aml y siaredir Cymraeg




⁵Gan ddefnyddio dadansoddiad atchweliad - cofier fod y canfyddiadau'n dibynnu ar ba ffactorau sydd ar gael i'w hystyried yn y dadansoddiad atchweliad. Yn yr achos hwn, roedd y rhain yn cynnwys - rhuglder a pha mor aml y siaredir Cymraeg, oedran, rhywedd, cymwysterau, cyflwr iechyd, amddifadedd yr ardal, statws economaidd, maint yr anheddiad, rhanbarth, hunaniaeth genedlaethol, gorbryder a chrefydd. Gallwch weld rhagor o fanylion yn yr adran [Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd](#).

⁶ Roedd cydberthyniad cryf hefyd â'r datganiad 'Pa mor aml y siaredir Cymraeg', ond nid oedd yn bosibl ei gynnwys yn yr atchweliad hwn oherwydd lluosgyflinelledd, hynny yw, mae cydberthyniad rhy gryf rhyngddo â'r gallu i siarad Cymraeg.


Rhywedd - Roedd menywod yn fwy tebygol na dynion i boeni ynghylch teimlo'u bod yn cael eu beirniadu ar sail pa mor dda y maent yn siarad Cymraeg, hyd yn oed ar ôl rheoli ar gyfer ffactorau eraill.⁵ Roedd 31% o'r dynion yn poeni ynghylch teimlo'u bod yn cael eu beirniadu o'u cymharu â 41% o'r menywod. Mae Siart 20 yn dangos bod hyn yn wir, waeth pa mor rhugl yw eu Cymraeg. Nid oedd cydberthynas rhwng rhywedd a'r ddau ddatganiad arall.

Siart 20: 'Rwy'n aml yn poeni y byddaf yn cael fy meirniadu ar sail pa mor dda dwi'n siarad Cymraeg' yn ôl rhuglder a rhywedd




Oedran - Roedd siaradwyr Cymraeg iau yn fwy tebygol o boeni ynghylch cael eu beirniadu ar sail pa mor dda maen nhw'n siarad Cymraeg na siaradwyr hŷn.

Siart 21: Rwy'n aml yn poeni y byddaf yn cael fy meirniadu ar sail pa mor dda dwi'n siarad Cymraeg' yn ôl oedran




Maint yr anheddiad - Roedd siaradwyr Cymraeg a oedd yn byw mewn ardaloedd llai poblog (llai na 2,000 o bobl yn byw yn yr anheddiad) yn llai tebygol o boeni y byddant yn cael eu beirniadu ar sail pa mor dda y maent yn siarad Cymraeg nag yw'r rhai sy'n byw mewn aneddiadau mwy poblog â thua 10,000 i 24, 999 o bobl yn byw yn yr ardal.

Siart 22: Rwy'n aml yn poeni y byddaf yn cael fy meirniadu ar sail pa mor dda dwi'n siarad Cymraeg' yn ôl maint yr anheddiad




Rhanbarth preswyllo - Pobl a oedd yn byw yn y rhanbarth â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg - y Gogledd-orllewin - oedd leiaf tebygol o fod yn poeni am gael eu beirniadu o'u cymharu â phobl yn y Gogledd-ddwyrain (y rhanbarth â'r gyfran ail isaf o siaradwyr Cymraeg).

Siart 23: Rwy'n aml yn poeni y byddaf yn cael fy meirniadu ar sail pa mor dda dwi'n siarad Cymraeg' yn ôl rhanbarth



Gor-bryder - Yn yr Arolwg Cenedlaethol, gofynnwyd i ymatebwyr raddio pa mor bryderus yr oeddent y diwrnod cynt ar raddfa o 0 i 10 (lle'r oedd 0 yn cyfateb i 'ddim yn bryderus o gwbl a 10 yn cyfateb i 'yn hollol bryderus'). Roedd siaradwyr Cymraeg a oedd yn dioddef mwy o orbryder (hynny yw yn rhoi sgôr o 6 hyd at 10) yn fwy tebygol o boeni am gael eu beirniadu ar sail pa mor dda y maent yn gallu siarad Cymraeg. Un esboniad posibl am hyn yw y gall hyn fod yn gysylltiedig â phersonoliaeth yr ymatebwyr (h.y. mae ymatebwyr sy'n teimlo gorbryder mewn agweddau eraill ar eu bywydau yn fwy tebygol o boeni am gael eu beirniadu ar sail pa mor dda y maent yn siarad Cymraeg) yn hytrach na bod eu pryder ynghylch pa mor dda y maent yn siarad Cymraeg yn achosi gorbryder.

Siart 24: Rwy'n aml yn poeni y byddaf yn cael fy meirniadu ar sail pa mor dda dwi'n siarad Cymraeg yn ôl lefelau gorbryder



Hunaniaeth genedlaethol - O'u cymharu â'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny, roedd siaradwyr Cymraeg a oedd yn ystyried mai 'Cymro/Cymraes' oedd eu hunaniaeth genedlaethol yn llai tebygol o boeni ynghylch cael eu beirniadu ar sail safon eu Cymraeg. Roedd 33% o'r siaradwyr Cymraeg a oedd yn ystyried eu hunain yn Gymry yn cytuno â'r datganiad o'u cymharu â 51% o'r siaradwyr Cymraeg nad oeddent yn ystyried eu hunain yn Gymry.

Pennod 3: Agweddau tuag at y Gymraeg

Prif ganfyddiadau

- Yn gyffredinol roedd y mwyafrif helaeth o'r bobl yn teimlo bod y Gymraeg yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi a bod angen i fwy o ymdrech gael ei gwneud i gefnogi'r iaith. Ond yn llai tebygol o gytuno â'r datganiad 'Bydd y Gymraeg yn gryfach mewn 10 mlynedd'
- Roedd siaradwyr Cymraeg yn fwy cadarnhaol am yr iaith na'r rheini nad oedd yn ei siarad


Un o'r themâu yn strategaeth y Gymraeg, [Cymraeg 2050](#) yw'r angen i sicrhau bod ewyllys da tuag at yr iaith. Dywed y strategaeth: "Rydym am i'r Gymraeg fod yn berthnasol i bawb yng Nghymru, waeth a ydynt yn siarad Cymraeg, Saesneg neu iaith arall, ac ennyn parch a gwerthfawrogiad o'r iaith ymhlith pobl sy'n symud i Gymru".

Er mwyn monitro agweddau pobl at y Gymraeg, cynhwyswyd cwestiynau ar y pwnc yn Arolwg Cenedlaethol Cymru am y tro cyntaf yn 2017-18. Gofynnwyd i bobl i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau a ganlyn:

- Mae'r Gymraeg yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi.
- Mae angen i fwy o ymdrech gael ei gwneud i gefnogi'r Gymraeg.
- Bydd y Gymraeg yn gryfach mewn 10 mlynedd nag ydyw heddiw.
- Hoffwn i fedru siarad Cymraeg (*gofynnwyd i'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg*)
- Hoffwn i fedru siarad Cymraeg yn well (*gofynnwyd i'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg ond mae ganddynt rywffaint o sgiliau yn yr iaith*)

Dangosir yr ymatebion a roddwyd yn Siart 25.

Siart 25: Agweddau tuag at y Gymraeg



(a) Gofynnwyd i'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn unig

(b) Gofynnwyd i'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg ond mae ganddynt rywffaint o sgiliau yn yr iaith yn unig.

Roedd 86% o'r bobl yn teimlo bod y Gymraeg yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi, ac roedd 67% yn credu bod angen i fwy o ymdrech gael ei gwneud i gefnogi'r Gymraeg. Roedd pobl yn lleiaf tebygol o gytuno â'r datganiad 'Bydd y Gymraeg yn gryfach mewn 10 mlynedd': cytunodd 40% â'r datganiad hwnnw

Dywedodd 62% o'r rhai nad oedd yn siarad Cymraeg yr hoffent ei siarad, a dywedodd 85% o'r rhai nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg ond fod ganddynt rywffaint o allu i siarad yr iaith yr hoffent ei siarad hi'n well.

Comisiynodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg set o gwestiynau ynghylch agweddau tuag at y Gymraeg yn Arolwg Omnibws Cymru⁷ ym mis Tachwedd 2008. Ail gomisiynwyd rhai ohonynt gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Tachwedd 2015.


Canfu Arolwg Omnibws Cymru fod:

- 82% yn teimlo bod 'y Gymraeg yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi' yn 2008, a'r ffigur cyfatebol yn 2015 oedd 85%.
- 41% yn teimlo y 'bydd y Gymraeg yn gryfach mewn 10 mlynedd nag ydyw heddiw', yn 2008 ac yn 2015, 39% oedd y ganran.

Gan fod Arolwg Omnibws Cymru'n cael ei gynnal mewn ffordd ychydig yn wahanol i Arolwg Cenedlaethol Cymru, nid oes modd cymharu'r ddau yn uniongyrchol. Fodd bynnag, mae'n ddiddorol nodi'r tebygrwydd rhwng canlyniadau'r ddau arolwg.

O'r tri datganiad yr holwyd siaradwyr Cymraeg a'r rheini nad oedd yn gallu ei siarad, roedd siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiadau na'r rhai nad oedd yn siarad Cymraeg, fel y dangosir yn Siart 26 isod. Roedd y gyfran o'r siaradwyr Cymraeg a oedd yn cytuno â'r datganiadau hyn yn uwch o lawer.

Siart 26: Agweddau tuag at y Gymraeg, yn ôl gallu i'w siarad



⁷ Arolwg wyneb yn wyneb o dros 1,000 o bobl yn seiliedig ar sampl cwota yw Arolwg Cynhwysfawr Cymru.

Mae'r Gymraeg yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi

Prif ganfyddiadau


Roedd y bobl a oedd yn fwyaf tebygol o feddwl bod y Gymraeg yn rhywbeth i ymfalchïo ynddo:

- yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl
- yn byw mewn awdurdodau lleol sydd â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg
- yn gyflogedig
- yn byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig
- â incwm is
- yn ystyried eu hunaniaeth genedlaethol i fod yn Gymry
- yn byw mewn ardaloedd llai poblog

Wrth reoli ar gyfer ffactorau eraill⁸, cafwyd bod y nodweddion personol canlynol yn gysylltiedig â 'chytuno'n gryf' â'r datganiad 'Mae'r Gymraeg yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi':

Y gallu i siarad Cymraeg⁹ – Roedd siaradwyr Cymraeg rhugl yn fwy tebygol o feddwl bod yr iaith yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi, o'u cymharu â'r rheini a oedd yn llai rhugl neu nad oeddent yn siarad yr iaith.

Siart 27: 'Mae'r Gymraeg yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi', yn ôl y gallu i siarad Cymraeg




Hunaniaeth genedlaethol – Roedd 70% o'r rheini a oedd yn ystyried mai 'Cymro/Cymraes' oedd eu hunaniaeth genedlaethol yn 'cytuno'n gryf' fod y Gymraeg yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi, o'u cymharu â 48% o'r rheini nad oeddent yn ystyried eu bod yn Gymry.

⁸ Gan ddefnyddio dadansoddiad atchweliad – Nodwch fod y canfyddiadau'n dibynnu ar y ffactorau hynny sydd ar gael i'w hystyried yn y dadansoddiad atchweliad. Yn yr achos hwn, mae'r ffactorau hynny'n cynnwys – oedran, rhywedd, amddifadedd ardal, statws economaidd, maint yr anheddiad, presenoldeb plant ifanc yn y cartref, bodlonrwydd ar fywyd, amddifadedd materol, awdurdod lleol, y gallu i siarad Cymraeg, ethnigrwydd, crefydd a hunaniaeth genedlaethol. Cewch fwy o fanylion yn yr adran [Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd](#).

⁹ Roedd cydberthyniad cryf ag 'amlder siarad Cymraeg', ond ni ellid cynnwys hwnnw yn y dadansoddiad atchweliad hwn oherwydd lluosgyflinelledd – hynny yw, mae'r cydberthyniad â'r gallu i siarad Cymraeg yn rhy gryf.

Awdurdod Lleol – Roedd ardal yr awdurdod lleol yr oedd pobl yn byw ynddi hefyd yn gysylltiedig â chytuno'n gryf fod yr iaith yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi. Yn gyffredinol, yr awdurdodau lleol hynny â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg oedd yn fwy tebygol o ymfalchïo yn yr iaith; fodd bynnag, roedd ardaloedd yr awdurdodau lleol yn gysylltiedig ag ymfalchïo yn yr iaith hyd yn oed ar ôl rheoli ar gyfer y gallu i siarad Cymraeg. Er mai dim ond 9% oedd yn gallu siarad Cymraeg yn Abertawe, roedd 58% ohonynt yn cytuno'n gryf fod yr iaith yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi; tra bo 21% yn gallu siarad yr iaith yn Sir Benfro a dim ond 25% ohonynt oedd yn cytuno'n gryf fod yr iaith yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi.


Siart 28: 'Mae'r Gymraeg yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi', yn ôl awdurdod lleol



Statws economaidd – Roedd pobl a oedd wedi'u cyflogi yn fwy tebygol o feddwl fod y Gymraeg yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi, a 64% oedd yn 'cytuno'n gryf' â'r datganiad o'u cymharu â 54% o bobl ddi-waith a 58% o bobl economaidd anweithgar.


Amddifadedd ardal - Er na fod Siart 29 yn dangos gwahaniaethau sylweddol yn ôl amddifadedd ardal, wrth reoli ar gyfer ffactorau eraill, roedd y rheini a oedd yn byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yn llai tebygol o 'gytuno'n gryf' fod yr iaith yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi o'u cymharu â'r rheini a oedd yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Siart 29: 'Mae'r Gymraeg yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi', yn ôl amddifadedd ardal



Maint yr anheddiad – Roedd siaradwyr Cymraeg a oedd yn byw mewn ardaloedd mwy gwledig â llai na 2,000 o bobl yn yr anheddiad yn fwy tebygol o gytuno'n gryf fod yr iaith yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi, o'u cymharu â'r rheini a oedd yn byw mewn aneddiadau mwy trefol ag o leiaf 100,000 o bobl yn byw yn yr anheddiad.

Siart 30: 'Mae'r Gymraeg yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi', yn ôl maint yr anheddiad



Mae angen i fwy o ymdrech gael ei gwneud i gefnogi'r Gymraeg

Prif ganfyddiadau


Roedd y bobl a oedd yn fwyaf tebygol o feddwl fod angen i fwy o ymdrech gael ei gwneud i gefnogi'r Gymraeg:

- yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl
- yn ifancach
- yn ystyried eu hunaniaeth genedlaethol i fod yn Gymry
- yn byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig
- â incwm is

Wrth reoli ar gyfer ffactorau eraill¹⁰ cafwyd bod y nodweddion personol canlynol yn gysylltiedig â 'chytuno' â'r datganiad 'Mae angen i fwy o ymdrech gael ei gwneud i gefnogi'r Gymraeg'.

Y gallu i siarad Cymraeg¹¹ – Roedd siaradwyr Cymraeg rhugl yn fwy tebygol o feddwl bod 'angen i fwy o ymdrech gael ei gwneud i gefnogi'r Gymraeg', o'u cymharu â'r rheini a oedd yn llai rhugl neu nad oeddent yn siarad yr iaith.

Siart 31: 'Mae angen i fwy o ymdrech gael ei gwneud i gefnogi'r Gymraeg' yn ôl y gallu i siarad Cymraeg




Hunaniaeth genedlaethol – Roedd 76% o'r rheini a oedd yn ystyried mai 'Cymro/Cymraes' oedd eu hunaniaeth genedlaethol o'r farn y dylai mwy o ymdrech gael ei gwneud i gefnogi'r iaith, o'u cymharu â 55% o'r rheini nad oeddent yn ystyried eu bod yn Gymry.

¹⁰ Gan ddefnyddio dadansoddiad atchweliad – Nodwch fod y canfyddiadau'n dibynnu ar y ffactorau hynny sydd ar gael i'w hystyried yn y dadansoddiad atchweliad. Yn yr achos hwn, mae'r ffactorau hynny'n cynnwys – oedran, rhywedd, amddifadedd ardal, statws economaidd, maint yr anheddiad, presenoldeb plant ifanc, bodlonrwydd ar fywyd, amddifadedd materol, awdurdod lleol, y gallu i siarad Cymraeg, ethnigrwydd, crefydd, incwm, cyfnod preswyllo yn eu cyfeiriad a hunaniaeth genedlaethol. Cewch fwy o fanylion yn yr adran [Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd](#).

¹¹ Roedd cydberthyniad cryf ag 'amlder siarad Cymraeg', ond ni ellid cynnwys hwnnw yn y dadansoddiad atchweliad hwn oherwydd lluosgyflinelldd – hynny yw, mae'r cydberthyniad â'r gallu i siarad Cymraeg yn rhy gryf.


Oedran – Roedd pobl iau na 35 oed yn fwy tebygol o feddwl bod angen i fwy o ymdrech gael ei gwneud i gefnogi'r iaith o'u cymharu â'r rheini a oedd yn 55 i 64 oed, fel y'i dangosir yn Siart 32.

Siart 32: 'Mae angen i fwy o ymdrech gael ei gwneud i gefnogi'r Gymraeg' yn ôl oedran




Amddifadedd ardal – Roedd pobl a oedd yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn fwy tebygol o feddwl bod angen i fwy o ymdrech gael ei gwneud i gefnogi'r iaith, o'u cymharu â'r rheini a oedd yn byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

Siart 33: 'Mae angen i fwy o ymdrech gael ei gwneud i gefnogi'r Gymraeg' yn ôl amddifadedd ardal



Incwm – roedd y bobl hynny a oedd yn ennill cyflog uwch yn llai tebygol o feddwl bod angen i fwy o ymdrech gael ei gwneud i gefnogi'r iaith o'u cymharu â'r rheini a chanddynt incwm llai.

Siart 34: 'Mae angen i fwy o ymdrech gael ei gwneud i gefnogi'r Gymraeg' yn ôl incwm



Bydd y Gymraeg yn gryfach mewn 10 mlynedd nag ydyw heddiw.

Prif ganfyddiadau

Roedd y bobl a oedd yn fwyaf tebygol o feddwl bydd y Gymraeg yn gryfach mewn 10 mlynedd:


- yn gallu siarad **Cymraeg yn rhugl**
- yn byw yng **Ngogledd Orllewin Cymru**
- yn **35 i 44 oed**
- yn **teimlo'n hapus**
- â **chymwysterau lefelau is**
- â **fwy o hyder yn y system addysg**
- âg **agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg**

Mae'r datganiad 'Bydd y Gymraeg yn gryfach mewn 10 mlynedd nag ydyw heddiw' ychydig yn wahanol i'r datganiadau eraill y gofynnwyd amdanynt, gan ei fod yn gofyn ynghylch y *dyfodol* a barn yr ymatebwyr am hynt yr iaith yn hytrach na'u barn am y sefyllfa bresennol, a allai fod yn fwy anodd i rai gynnig ateb iddo. Y datganiad hwn oedd yr un yr oedd pobl yn cytuno ag ef leiaf. Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr (78%) wedi rhoi'r tri opsiwn canolig, ('tueddu i gytuno', 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' a 'tueddu i anghytuno') fel atebion.

Wrth reoli ar gyfer ffactorau eraill¹², cafwyd bod y nodweddion personol canlynol yn gysylltiedig â 'chytuno' â'r datganiad 'Bydd y Gymraeg yn gryfach mewn 10 mlynedd nag ydyw heddiw'.

Y gallu i siarad Cymraeg¹³ – Roedd siaradwyr Cymraeg rhugl yn fwy tebygol o feddwl y bydd yr iaith yn gryfach ymheng 10 mlynedd, o'u cymharu â'r rheini a oedd yn llai rhugl neu nad oeddent yn siarad yr iaith.

Siart 35: 'Bydd y Gymraeg yn gryfach mewn 10 mlynedd nag ydyw heddiw' yn ôl y gallu i siarad Cymraeg.




¹² Gan ddefnyddio dadansoddiad atchweliad – Nodwch fod y canfyddiadau'n dibynnu ar y ffactorau hynny sydd ar gael i'w hystyried yn y dadansoddiad atchweliad. Yn yr achos hwn, mae'r ffactorau hynny'n cynnwys – oedran, rhywedd, amddifadedd ardal, statws economaidd, maint yr anheddiad, presenoldeb plant ifanc, lefelau hapusrwydd, amddifadedd materol, awdurdod lleol, rhanbarth, y gallu i siarad Cymraeg, ethnigrwydd, crefydd a hunaniaeth genedlaethol. Cewch fwy o fanylion yn yr adran [Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd](#).

¹³ Roedd cydberthyniad cryf ag 'amlder siarad Cymraeg', ond ni ellid cynnwys hwnnw yn y dadansoddiad atchweliad hwn oherwydd lluosgyflinelldd – hynny yw, mae'r cydberthyniad â'r gallu i siarad Cymraeg yn rhy gryf.


Rhanbarth preswyllo – Roedd y rhanbarth â'r gyfran isaf o siaradwyr Cymraeg (y De-ddwyrain), yn fwyaf tebygol o 'gytuno'n gryf' y byddai'r Gymraeg yn gryfach mewn 10 mlynedd nad ydw heddiw'. Ond, wrth gyfuno ymatebion 'cytuno'n gryf' a 'tueddu i gytuno', ychydig iawn o wahaniaeth fu rhwng y rhanbarthau, ac eithrio'r rhai hynny yn y Gogledd-ddwyrain, lle gwelwyd cyfran llawer is a oedd o'r farn y byddai'r iaith yn gryfach ymhen 10 mlynedd.

Siart 36: 'Bydd y Gymraeg yn gryfach mewn 10 mlynedd nag ydyw heddiw' yn ôl rhanbarth




Hapusrwydd - Yn yr Arolwg Cenedlaethol, gofynnwyd i ymatebwyr nodi pa mor hapus yr oeddent yn teimlo'r diwrnod blaenorol ar raddfa o 0 i 10, (lle yr oedd 0 yn cyfateb i 'ddim yn hapus o gwbl' a 10 yn cyfateb i 'yn hollol hapus'). Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn hapusach (hynny yw wedi rhoi sgôr o 9 i 10) yn fwy tebygol o feddwl y byddai'r Gymraeg yn gryfach ymhen 10 mlynedd. Un esboniad posibl am hyn yw bod hwn yn gysylltiedig â phersonoliaeth yr ymatebwyr (h.y. fod ymatebwyr sy'n debygol o ddweud eu bod yn hapusach, yn debygol o roi atebion mwy cadarnhaol ar gyfer cwestiynau eraill, yn hytrach na bod eu barn am ddyfodol yr iaith yn eu gwneud yn hapusach)

Siart 37: 'Bydd y Gymraeg yn gryfach mewn 10 mlynedd nag ydyw heddiw' yn ôl lefelau hapusrwydd




Cymwysterau – Roedd pobl â lefelau is o ran cymwysterau (yn is na lefel C ar gyfer TGAU neu gymhwyster cyfwerth), neu nad oedd cymwysterau ganddynt, yn fwy tebygol o feddwl y byddai'r iaith yn gryfach ymhén 10 mlynedd.

Siart 38: 'Bydd y Gymraeg yn gryfach mewn 10 mlynedd nag ydyw heddiw' yn ôl cymhwyster



Oedran – Roedd pobl iau 16 i 24 oed a phobl 75 oed neu hŷn yn llai tebygol o feddwl y byddai'r iaith yn gryfach ymhén 10 mlynedd.

Siart 39: 'Bydd y Gymraeg yn gryfach mewn 10 mlynedd nag ydyw heddiw' yn ôl oedran




Agwedd tuag at y Gymraeg¹⁴ - Roedd cydberthyniad cryf rhwng cytuno â'r datganiadau eraill am y Gymraeg a chytuno â'r datganiad 'bydd y Gymraeg yn gryfach mewn 10 mlynedd nag ydyw heddiw'. Rhagfarn ar sail cytuno a allai fod yn rhannol gyfrifol am hynny (h.y. y tueddiad i gytuno ag unrhyw ddatganiad), ond mae hefyd yn debygol y bydd y rheini sy'n cefnogi'r iaith yn ymfalchïo ynddi, eisiau ei siarad hi, eisiau i fwy o ymdrech gael ei gwneud i'w chefnogi hi, ac eisiau iddi fod yn gryfach yn y dyfodol.

¹⁴ Roedd cydberthyniad cryf rhwng y datganiadau hyn, ond ni ellid cynnwys hwnnw yn y dadansoddiad atchweliad hwn oherwydd lluosgyflinedd – hynny yw, roedd y cydberthyniad â'r datganiad 'y bydd y Gymraeg yn gryfach ymhén 10 mlynedd yn rhy gryf'.

Hyder yn y system addysg¹⁵ - Yn yr Arolwg Cenedlaethol, gofynnwyd i ymatebwyr nodi pa mor hyderus yr oeddent yn y system addysg ar raddfa o 0 i 10 (lle yr oedd 0 yn cyfateb i 'ddim yn hyderus o gwbl' a 10 yn cyfateb i 'yn eithriadol o hyderus'). Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn fwy tebygol o feddwl y byddai'r Gymraeg yn gryfach ymhen 10 mlynedd wedi rhoi sgôr uwch ar gyfartaledd am eu hyder yn y system addysg.

Siart 40: 'Bydd y Gymraeg yn gryfach mewn 10 mlynedd nag ydyw heddiw' yn ôl hyder yn y system addysg



¹⁵ Gofynnwyd y cwestiwn hwn i is-sampl o bobl yn unig, ac felly ni chafodd ei gynnwys yn y model atchweliad.

Hoffwn i fedru siarad Cymraeg (yn well)

Prif ganfyddiadau

Roedd y bobl a oedd yn fwyaf tebygol o ddweud eu bod yn dymuno siarad yr iaith neu ei siarad hi'n well

- yn **fenyw**
- **16 i 34 oed**, (35 i 54 oed i'w siarad yn well)
- yn ystyried eu **hunaniaeth genedlaethol** i fod yn **Gymry**
- **oedd yn byw yn ne-orllewin Cymru** (Gogledd Orllewin Cymru i'w siarad yn well)
- wedi **ymweld â safle hanesyddol** yn y flwyddyn flaenorol
- âg **agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg**


Gofynnwyd i ymatebwyr nad oedd yn gallu siarad Cymraeg a hoffent fedru siarad Cymraeg, a gofynnwyd i'r rhai hynny a ddywedodd na allent siarad Cymraeg ond roedd ganddynt ryw faint o allu i siarad yr iaith a hoffent fedru siarad Cymraeg *yn well*.

Yn gyffredinol, roedd y rhai hynny a oedd ganddynt ryw faint o sgiliau yn fwy tebygol o ddweud yr hoffent siarad Cymraeg 'yn well', o'u cymharu â'r rheini na allai siarad Cymraeg a oedd wedi dweud yr hoffent siarad Cymraeg. Dangosir hynny yn [Siart 25](#).

Wrth reoli ar gyfer ffactorau eraill¹⁶ cafwyd bod y nodweddion personol canlynol yn gysylltiedig â 'chytuno' â'r datganiad 'Hoffwn i fedru siarad Cymraeg neu ei siarad hi'n well'

Oedran – Roedd pobl iau 16 i 34 oed yn fwy tebygol o ddweud yr hoffent fedru siarad Cymraeg na phobl hŷn, ond y rheini 35 i 54 oed oedd fwyaf tebygol o ddweud yr hoffent siarad Cymraeg *yn well*.


Siart 41: 'Hoffwn i fedru siarad Cymraeg neu ei siarad yn well' yn ôl oedran



¹⁶ Gan ddefnyddio dadansoddiad atchweliad – Nodwch fod y canfyddiadau'n dibynnu ar y ffactorau hynny sydd ar gael i'w hystyried yn y dadansoddiad atchweliad. Yn yr achos hwn, mae'r ffactorau hynny'n cynnwys – oedran, rhywedd, amddifadedd ardal, statws economaidd, maint yr anheddiad, cael plant yn y system addysg, bodlonrwydd ar fywyd, cymryd rhan mewn digwyddiadau sy'n ymwneud â threftadaeth, incwm ymatebwyr, cyfnod preswyl yn eu cyfeiriad, amddifadedd materol, lefelau cymwysterau, rhanbarth, cymryd rhan mewn chwaraeon, crefydd a hunaniaeth genedlaethol. Cewch fwy o fanylion yn yr adran [Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd](#).

Rhywedd - Er na fod Siart 42 yn dangos unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng awydd dynion a menywod i siarad Cymraeg; wrth reoli ar gyfer ffactorau eraill, roedd menywod ychydig yn fwy tebygol na dynion o eisiau gallu siarad Cymraeg neu ei siarad yn well


Siart 42: 'Hoffwn i fedru siarad Cymraeg neu ei siarad yn well' yn ôl rhywedd



Hunaniaeth genedlaethol – Roedd 70% o'r rheini nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg, a oedd yn ystyried mai 'Cymro/Cymraes' oedd eu hunaniaeth genedlaethol, yn dymuno gallu siarad yr iaith, o'u cymharu â 53% o'r rheini nad oeddent yn ystyried eu bod yn Gymry. Roedd hynny hefyd yn wir am y rhai hynny a oedd ganddynt rywfaent o allu i siarad Cymraeg: roedd 89% o'r rheini a oedd yn ystyried eu bod yn Gymry eisiau siarad Cymraeg yn well o'u cymharu â 76% o'r rheini nad oeddent yn ystyried eu bod yn Gymry.

Rhanbarth preswyllo – Roedd y rhanbarthau hynny â'r cyfrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg (y Gogledd-orllewin a'r De-orllewin) yn cynnwys y cyfrannau uchaf o bobl a oedd eisiau siarad Cymraeg neu ei siarad hi'n well. Y rheini yng Nghanolbarth Cymru nad oeddent yn siarad Cymraeg oedd y lleiaf tebygol o eisiau medru siarad yr iaith, ac o'r rheini a oedd ganddynt rywfaent o sgiliau yn yr iaith, y rheini yn y De-ddwyrain oedd y lleiaf tebygol o eisiau siarad Cymraeg yn well.


Siart 43: 'Hoffwn i fedru siarad Cymraeg neu ei siarad yn well' yn ôl rhanbarth



Wedi ymweld â safle hanesyddol - Gofynnwyd i ymatebwyr yn yr Arolwg Cenedlaethol a oeddent wedi ymweld â safleoedd hanesyddol yn ystod y 12 mis blaenorol. Roedd y rheini a oedd wedi gwneud yn fwy tebygol o ddymuno gallu siarad Cymraeg neu ei siarad yn well.

Un esboniad posibl am hyn yw bod yr awydd i siarad Cymraeg yn gysylltiedig â diddordebau a phersonoliaeth yr ymatebwyr - h.y. bod gan yr ymatebwyr hynny sydd â diddordeb mewn treftadaeth, ddiddordeb hefyd mewn dysgu'r iaith.

Siart 44: 'Hoffwn i fedru siarad Cymraeg neu ei siarad yn well' yn ôl a ydynt wedi ymweld â safle hanesyddol yn ystod y 12 mis blaenorol



Agwedd tuag at y Gymraeg¹⁷ - Roedd cydberthyniad cryf rhwng cytuno a'r datganiadau eraill am y Gymraeg a chytuno â'r datganiad 'hoffwn i fedru siarad Cymraeg neu ei siarad yn well'. Rhagfarn ar sail cytuno a allai fod yn rhannol gyfrifol am hynny (h.y. y tueddiad i eisiau cytuno ag unrhyw ddatganiad), ond mae hefyd yn debygol y bydd y rheini sy'n cefnogi'r iaith yn ymfalchïo ynddi, eisiau i fwy o ymdrech gael ei gwneud i'w chefnogi hi, eisiau iddi fod yn gryfach yn y dyfodol, ac eisiau ei siarad hi.

¹⁷ Roedd cydberthyniad cryf rhwng y datganiadau hyn, ond ni ellid cynnwys hwnnw yn y dadansoddiad atchweliad hwn oherwydd lluosgyflinelledd – hynny yw, roedd y cydberthyniad â'r datganiad 'hoffwn i fedru siarad Cymraeg (neu ei siarad yn well)' yn rhy gryf.

Termau a diffiniadau

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Y dull swyddogol o fesur amddifadedd ardal yng Nghymru yw Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC). Mae amddifadedd yn gysyniad ehangach na thlodi. Mae'n ymwneud â phroblemau ehangach a achoswyd fel canlyniad i ddiffyg adnoddau a chyfleoedd. Mae MALIC yn cynnwys wyth gwahanol fath o amddifadedd, sef: incwm, tai, cyflogaeth, mynediad i wasanaethau, addysg, iechyd, diogelwch cymunedol a'r amgylchedd ffisegol. Mae Cymru wedi'i rhannu yn 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI), a phob un ardal yn cynnwys tua 1,600 o bobl. Datblygwyd dull rancio amddifadedd ar gyfer pob un o'r ardaloedd hyn: rhoddir sgôr o 1 i'r AGEHI mwyaf difreintiedig, a sgôr o 1,909 i'r AGEHI lleiaf difreintiedig. Ar gyfer y bwletin hwn, rydym wedi grwpio'r bobl hynny sy'n byw yn yr 20% o AGEHI sydd fwyaf difreintiedig ar sail sgôr MALIC a'u cymharu â'r 20% o AGEHI sydd leiaf difreintiedig. - gweler hefyd yr adran ar Amddifadedd materol isod.

Statws economaidd

Cafodd yr ymatebwyr eu dosbarthu i'r tri statws economaidd canlynol yn ôl sut yr oeddent yn disgrifio'r hyn yr oeddent wedi'i wneud dros y 7 diwrnod blaenorol.

Cyflogedig	Di-waith	Economaidd anweithgar
• Mewn unrhyw gyflogaeth am dâl neu hunangyflogaeth (neu i ffwrdd dros dro) • Ar gynllun hyfforddi dan nawdd y llywodraeth • Yn gwneud gwaith di-dâl i fusnes eich hun neu eich perthynas • Aros i ddechrau swydd gyflogedig rydych eisoes wedi'i chael	• Yn ddi-waith ac yn chwilio am waith • Yn bwriadu chwilio am waith ond methu â gwneud hynny dros dro oherwydd salwch neu anaf (28 diwrnod neu lai)	• Myfyriwr amser llawn (gan gynnwys ar wyliau) • Methu gweithio oherwydd salwch neu anabledd hirdymor • Wedi ymddeol • Yn gofalu am deulu neu'r cartref • Yn gwneud rhywbeth arall

Maint anheddiad

Rydym wedi categorio'r ymatebwyr yn ôl maint yr anheddiad y maent yn byw ynddo, o'r ardal fwyaf gwledig, lle mae llai na 2,000 o bobl yn yr anheddiad, i'r ardaloedd trefol mwyaf poblog lle mae dros 100,000 o bobl yn yr anheddiad.

Roedd 5 band anheddiad i gyd yn cynnwys tua'r un faint o bobl:

- Llai na 2,000
- 2,000 i 9,999
- 10,000 i 24,999
- 25,000 i 99,999
- o leiaf 100,000

Yn draddodiadol, caiff aneddiadau â phoblogaeth o 10,000 neu ragor eu diffinio fel ardaloedd "trefol". Caiff ardal adeiledig ei diffinio fel tir o ddim llai na 20 hectar (200,000 metr sgwâr), a chaiff unrhyw anheddiad o fewn 200 metr i un arall eu cysylltu.

Mae rhagor o wybodaeth am sut y caiff yr ardaloedd hyn eu diffinio yn yr [erthygl ystadegol](#) hon.

Cymwysterau

Mae cymwysterau uchaf yr ymatebwyr wedi'u grwpio yn ôl lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol: lefel 1 yw'r lefel ar gyfer y cymwysterau isaf ac mae lefel 8 yn cyfateb i radd doethuriaeth neu gymhwyster cyfwerth. Ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol, mae'r ymatebwyr wedi'u gosod mewn 5 grŵp: mae'r rhai sydd heb gymwysterau wedi'u gosod yn y categori isaf, ac mae ymatebwyr sydd â chymwysterau ar lefelau 4 i 8 wedi'u grwpio gyda'i gilydd yn y categori cymwysterau uchaf. [Rhagor o wybodaeth am lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol](#).

Er mwyn darparu disgrifiadau mwy ystyrlon o'r cymwysterau, defnyddiwyd y disgrifiadau byr hyn yn y bwletin hwn.

Lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC)	Disgrifiadau a ddefnyddir yn y bwletin
Lefelau 4-8 FfCC	Lefel gradd neu uwch
Lefel 3 FfCC	Safon Uwch neu gymhwyster cyfwerth
Lefel 2 FfCC	TGAU graddau A i C a chymwysterau cyfwerth
Islaw lefel 2 FfCC	TGAU is na gradd C
Dim cymwysterau	Dim cymwysterau

Gwybodaeth allweddol am ansawdd

Cefndir

Cynhelir yr Arolwg Cenedlaethol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau sydd i'w gweld yn y bwletin hwn wedi'u seilio ar gyfweiliadau a gynhaliwyd rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018.

Dewiswyd 23,517 o gyfeiriadau ar hap o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post y Post Brenhinol ar gyfer Defnyddwyr Bach. Ymwelodd y cyfweiliwyr â phob cyfeiriad a dewiswyd un oedolyn (16+ oed) ar hap yn y cartref. Yna, cynhaliwyd cyfweiliad 45 munud wyneb yn wyneb â'r oedolyn hwnnw, gan ofyn am ei farn am amrywiaeth eang o faterion, ymddygiadau a nodweddion. Llwyddwyd i gynnal 11,381 o gyfweiliadau a chafwyd cyfradd ymateb o 54.5%.

Ceir rhagor o wybodaeth am y dull a ddefnyddiwyd yn yr [Adroddiad technegol](#).

Dehongli'r canlyniadau

Mae'r canrannau sy'n cael eu dyfynnu yn y bwletin hwn wedi'u seilio ar yr ymatebwyr a roddodd ateb i'r cwestiwn perthnasol yn unig. Gofynnwyd cwestiynau am rai o'r pynciau yn yr arolwg i is-sampl o ymatebwyr yn unig, ac ni ofynnwyd cwestiynau eraill os nad oeddent yn berthnasol i'r ymatebydd. Gall atebion fod ar goll am sawl rheswm, gan gynnwys gwrthod neu fethu ateb cwestiwn penodol.

Lle canfuwyd perthynas rhwng dau ffactor, nid yw hynny'n golygu fod y gydberthynas honno'n un achosol. Bydd angen dadansoddiad manylach er mwyn gweld a yw un ffactor yn achosi newid mewn un arall.

Mae'r canlyniadau'n cael eu pwysoli er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n adlewyrchu dosbarthiad oedran a rhyw poblogaeth Cymru.

Amrywioldeb samplu

Mae amcangyfrifon yr Arolwg Cenedlaethol yn destun rhywfaint o ansicrwydd. Mae rhan o'r ansicrwydd yn deillio o'r ffaith y bydd unrhyw sampl o'r boblogaeth a ddewisir ar hap yn rhoi canlyniadau ychydig yn wahanol i'r canlyniadau a geid pe bai'r boblogaeth gyfan yn cael ei holi. Gelwir hyn yn gyfeiliornad samplu. Gellir defnyddio lwfansau ansicrwydd i roi syniad o faint y cyfeiliornad samplu. Gellir cyfrifo'r lwfansau ansicrwydd hyn o amgylch amcangyfrif arolwg, ac maent yn cynnig ystod lle mae'r gwir werth yn debyg o ostwng. Ar gyfer 95% o samplau arolygon, bydd y lwfans ansicrwydd o 95% yn cynnwys y 'gwir' ffigur ar gyfer y boblogaeth gyfan (hynny yw, y ffigur y byddem yn ei gael pe bai'r arolwg yn cwmpasu'r boblogaeth yn gyfan). Yn gyffredinol, y lleiaf yw maint y sampl, y mwyaf yw'r lwfans ansicrwydd. Mae'r lwfansau ansicrwydd hefyd wedi'u cynnwys yn nhablau canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol drwy StatsCymru.

Fel sy'n wir ar gyfer unrhyw arolwg, mae'n bosibl y gallai amrywiaeth o ffynonellau cyfeiliornadau samplu eraill effeithio ar ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol. Er enghraifft, oherwydd diffyg ymateb; oherwydd efallai na fyddai ymatebwyr yn dehongli'r cwestiynau fel y bwriadwyd iddynt wneud neu na fyddent yn ymateb yn gywir; ac oherwydd y gallai cyfeiliornadau ymddangos wrth i ddata'r arolwg gael eu prosesu. Gelwir y mathau hyn o gyfeiliornadau yn gyfeiliornadau nad ydynt yn gyfeiliornadau samplu, ac fe'u trafodir ymhellach yn yr adroddiad ansawdd ar yr arolwg.

Adroddiad Ansawdd

Mae crynodeb o'r [Adroddiad Ansawdd](#) ar gael, yn cynnwys gwybodaeth fanylach am ansawdd yr arolwg yn ogystal â chrynodeb o'r dulliau a ddefnyddiwyd i grynhoi'r canlyniadau.

Dadansoddiad atchweliad

Ar ôl ystyried canlyniadau'r arolwg, cafodd ffactorau a oedd yn ein barn ni yn debygol o ddylanwadu ar hyder siaradwyr Cymraeg i siarad iaith ac agweddau pobl at yr iaith wedi'u hymgorffori ym mhob un o'r modelau atchweliad perthnasol. Ym mhob achos, detholwyd y newidynnau cychwynnol a ddefnyddiwyd yn yr atchweliad ar sail y canlynol: canlyniadau traws-ddadansoddi, cyfeiriad polisi, ac ymarferoldeb defnyddio'r newidyn. Roedd canlyniadau rhai ffactorau ar gael ar gyfer is-sampl o ymatebwyr yn unig, neu roedd nifer mawr o ganlyniadau 'ar goll', a arweiniodd at ostyngiad sylweddol ym maint y sampl y gellid profi'r model atchweliad ar ei sail. Am y rheswm hwnnw, gadawyd rhai newidynnau/ffactorau allan o'r ymchwiliad. Roedd y modelau terfynol yn cynnwys y ffactorau hynny a oedd yn parhau'n arwyddocaol hyd yn oed ar ôl cadw'r ffactorau eraill yn gyson. Y ffactorau arwyddocaol hyn yw'r rhai a drafodwyd yn y bwletin hwn, a dangosir y defnydd o ddadansoddiad atchweliad gan y datganiad ein bod wedi 'rheoli ar gyfer ffactorau eraill'. Mae'n werth nodi pe byddai ystod wahanol o ffactorau wedi bod ar gael i'w hystyried o'r arolwg, yna gallai rhai casgliadau yr oedd ffactorau'n arwyddocaol mewn perthynas â nhw, fod wedi bod yn wahanol.

Ceir rhagor o fanylion am y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad atchweliad yn yr [Adroddiad technegol: Dull gweithredu o ran dadansoddiad atchweliad a'r modelau a gynhyrchwyd](#).

Gwahaniaethau arwyddocaol

Pan fo testun y datganiad hwn yn nodi gwahaniaeth rhwng dau o ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol, rydym wedi sicrhau nad yw'r lwfansau ansicrwydd ar gyfer y ddau ganlyniad yn gorgyffwrdd. Mae hyn yn awgrymu bod y gwahaniaeth yn arwyddocaol yn ystadegol (ond, fel y nodir uchod, nid yw mor fanwl â chynnal prawf ystadegol ffurfiol), hynny yw, bod llai na 5% (1 mewn 20) o siawns o gael y canlyniadau hyn os nad oes gwahaniaeth rhwng yr un dau grŵp yn y boblogaeth ehangach.

Sylwch fod cadarnhau a yw dau lwfans ansicrwydd yn gorgyffwrdd yn llai tebygol na phrawf ystadegol ffurfiol o arwain at gasgliadau bod gwahaniaethau gwirioneddol rhwng grwpiau. Hynny yw, mae'n fwy tebygol o arwain at "ganlyniadau negyddol ffug": casgliadau anghywir nad oes gwahaniaeth gwirioneddol pan fo gwahaniaeth mewn gwirionedd. Mae hefyd yn llai tebygol o arwain at "ganlyniadau cadarnhaol ffug": casgliadau anghywir bod gwahaniaeth pan nad oes gwahaniaeth mewn gwirionedd. Mae cynnal sawl cymhariaeth yn cynyddu'r siawns o ddod o hyd i ganlyniadau cadarnhaol ffug. Felly pan fo sawl cymhariaeth yn cael eu gwneud, mae natur geidwadol y prawf yn fanteisiol am ei fod yn lleihau (ond nid yn dileu) y siawns hon.

Nodwch fod y bwletin hwn yn canolbwyntio ar ddadansoddiad atchweliad ac yn nodi'r ffactorau a oedd yn arwyddocaol wrth reoli ar gyfer ffactorau eraill. Mae'n bosibl ar gyfer rhai ffactorau, na fydd hi'n bosib gweld gwahaniaeth arwyddocaol wrth edrych ar draws-ddadansoddiad, ond wrth reoli'r ffactorau eraill, fe all fod yn arwyddocaol yn y model atchweliad.

Statws Ystadegau Gwladol

Mae [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig](#) wedi pennu'r ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ac i ddangos cydymffurfiaeth gyda'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#).

Golyga statws Ystadegau Gwladol bod yr ystadegau swyddogol yn bodloni'r safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os byddwn yn pryderu ynghylch p'un a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod y pryderon hynny â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo'r safonau'n cael eu hadfer.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn gosod saith nod llesiant i Gymru. Mae'r rhain er mwyn sicrhau Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel byd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Dan adran 10 (1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("[dangosyddion cenedlaethol](#)") y gellir eu defnyddio ar gyfer mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Gosodwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn [adroddiad Llesiant Cymru](#).

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth gyd-destunol ar gyfer dau o'r [dangosyddion cenedlaethol](#) sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Dyma'r canrannau o'r boblogaeth sy'n:

- [Siarad Cymraeg yn ddyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg](#) (Rhif 36),
- [Gallu siarad Cymraeg](#) (Rhif 37)

Gellir cael rhagor o wybodaeth am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)

Gallai'r ystadegau yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrdau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

Manylion pellach

Mae'r bwletin hwn ar gael yn: www.llyw.cymru/arolwgcenedlaethol

Cafodd [datganiad cyntaf](#) yr arolwg ei gyhoeddi ar 20 Mehefin 2018.

Ceir rhagor o fanylion ynghylch methodoleg yr arolwg yn yr [Adroddiad technegol](#) ar gyfer yr arolwg.

Y diweddariad nesaf

Nid yw hwn yn gyhoeddiad rheolaidd.

Hoffem gael adborth gennych

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn, a gellir gwneud hynny drwy anfon neges e-bost i arolygon@llyw.cymru

Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan [Drwydded Llywodraeth Agored f3.0](#), oni nodir yn wahanol.

